WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gwasanaethau gofal sylfaenol – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 863A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y bobl a gyflawnodd y gwaith oedd Elaine Matthews ac Emily Owen.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol ac mae'n gwneud cynnydd graddol o ran gweithredu elfennau allweddol y weledigaeth genedlaethol. Er bod lefelau perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer llawer o'r dangosyddion, mae'r pwysau cynyddol ar y gweithlu yn herio cynaliadwyedd gwasanaethau meddygon teulu craidd mewn rhai ardaloedd.


Adroddiad cryno

Cefndir 4

Prif ganfyddiadau 7

Argymhellion 8

Adroddiad manwl

**Cynllunio strategol:** Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol. Mae'r cynlluniau wedi'u llywio gan gynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ond nid yw'r rhwydweithiau hyn wedi aeddfedu'n llawn eto 10

**Buddsoddiad:** Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau clir o symud adnoddau'n agosach at adref a nodau i gynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol 16

**Gweithlu:** Mae heriau o ran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd rhai practisau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi asesu'r heriau hyn ac mae ar gamau cynnar profi atebion 21

**Goruchwyliaeth:** Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cadarn ond nid yw'r dangosyddion perfformiad presennol yn caniatáu goruchwyliaeth o holl feysydd gofal sylfaenol ac mae lle am fwy o bwyslais ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd 28

**Perfformiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ac mae perfformiad yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, ond mae nifer o heriau anodd yn parhau 32

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau 42

Atodiad 2 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 43

# Adroddiad cryno


## Cefndir

1 Y diffiniad o ofal sylfaenol yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol[1] yw:

‘Mae a wnelo gofal sylfaenol â’r gwasanaethau hynny sy’n darparu’r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, ar gyfer mwy na 90% o gysylltiad pobl â’r GIG yng Nghymru. Mae gwasanaeth meddygon teulu yn un o elfennau craidd gofal sylfaenol: ond nid dyma’r unig elfen – mae gofal sylfaenol yn cwmpasu llawer mwy o wasanaethau iechyd, gan gynnwys fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Hefyd – yn bwysig – mae’n ymwneud â chydgysylltu mynediad i bobl at yr amrywiaeth eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a lles.’


2 Mae Arddangosyn 1 yn dangos y swyddogaeth bwysig sydd gan ofal sylfaenol yng Nghymru.

Arddangosyn 1: pam mae gofal sylfaenol yn bwysig yng Nghymru?




**Pwynt cyswllt cyntaf**

Gofal sylfaenol yw’r man galw cyntaf i’r rhan fwyaf o bobl sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd.





**Gwariant ar ofal sylfaenol**

Yn 2016-17, gwariodd y GIG yng Nghymru £1.39 biliwn ar ofal sylfaenol, sydd oddeutu un rhan o bump o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru.



**Atal ac ymyrryd yn gynnar**

Mae gofal sylfaenol hefyd yn bwysig gan ei fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles, ymyrraeth gynnar ac atal pobl rhag mynd yn waeth.



**Cydgysylltu gofal**

Mae gan ofal sylfaenol swyddogaeth bwysig yn cydgysylltu gwahanol fathau o ofal. Gofal sylfaenol yw’r porth i nifer fawr o wasanaethau eraill.

[1] Ein cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru hyd at fis Mawrth 2018 Llywodraeth Cymru. Chwefror 2015.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru. Sylwer: Nid yw byrddau iechyd yn categoreiddio gwariant gofal sylfaenol mewn modd cyson. Felly, mae'n debygol nad yw'r £1.39 biliwn yng nghyfrifon y GIG yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol.

3 Mae Cymru wedi bod â chynlluniau ers blynyddoedd lawer sy'n pwysleisio pwysigrwydd gofal sylfaenol. Nod y cynlluniau yw cyflawni cydbwysedd yn y system ofal trwy symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a chymunedol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ceisio datblygu 'model cymdeithasol' sy'n hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na chadw at absenoldeb salwch yn unig. Yr egwyddorion craidd yn y cynllun yw: cynllunio gofal yn lleol; gwella mynediad ac ansawdd; mynediad teg; gweithlu lleol medrus; ac arweinyddiaeth gadarn.

4 Yn y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a fframwaith cynllunio GIG Cymru, disgwylir i fyrddau iechyd nodi cynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol yn rhan o'u cynllun tymor canolig integredig. Dylai pob cynllun egluro sut y bydd y bwrdd iechyd yn datblygu capasiti a gallu gwasanaethau gofal sylfaenol.

5 Er mwyn cefnogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol, cyhoeddodd GIG Cymru gynllun gweithlu[2]. Disgwylir i fyrddau iechyd rhoi ar waith gamau i sicrhau, rheoli a chefnogi gweithlu gofal sylfaenol cynaliadwy wedi'i lywio gan anghenion y boblogaeth leol a gan egwyddorion gofal iechyd doeth.

6 Clystyrau gofal sylfaenol yw'r prif ddull o gynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol ac fe'u sefydlwyd yn 2009[3]. Clystyrau yw grwpiau o bractisau meddygon teulu cyfagos, gwasanaethau gofal sylfaenol eraill a sefydliadau partner, fel y gwasanaeth ambiwlans, cynghorau a'r trydydd sector. Ceir 64 o glystyrau (a elwir hefyd yn rhwydweithiau gofal cymdogaeth) yng Nghymru. Eu swyddogaeth yw cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd flaenoriaethu datblygiad cyflym y clystyrau yn eu hardal.

7 Er mwyn cefnogi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol ac annog arloesi, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa gofal sylfaenol genedlaethol yn 2015-16. Ac yn 2016-17, roedd cyfanswm £41 miliwn yn y gronfa. Rhoddwyd £10 miliwn i ddatblygu'r clwstwr a rhoddwyd £3.8 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer prosiectau pennu cyfeiriad ac ysgogi arloesi, sy'n ceisio profi elfennau o'r cynllun gofal sylfaenol. Mae'r prosiectau a ariannwyd yn y modd hwn wedi creu ffyrdd newydd o weithio sydd wedi'u casglu yn y Model Trawsnewidiol o Ofal Sylfaenol a Chymunedol[4].

[2] GIG Cymru. Gweithlu Gofal Sylfaenol Wedi'i Gynllunio i Gymru: Dull a chamau datblygu i'w cymryd i gefnogi'r cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru hyd at 2018. Gorffennaf 2015.

[3] Llywodraeth Cymru. Pennu'r Cyfeiriad: Rhaglen Gyflawni Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol. 2009.

[4] http://http://www.gofalsylfaenolun.cymru.nhs.uk/ysgogi-arloesi

8 Ers cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014, bu nifer o ddatblygiadau. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn dilyn ymchwiliad i glystyrau[5]. Nododd yr adroddiad enghreifftiau nodedig o gynnydd, ond dywedodd bod angen newid mawr er mwyn i glystyrau gael effaith sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r dull clystyrau trwy ei rhaglen lywodraethu[6].

9 Fodd bynnag, wrth i fyrddau iechyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ym maes gofal sylfaenol, bu anawsterau wrth recriwtio a chadw meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill. Er y bu llwyddiant yn ddiweddar wrth recriwtio hyfforddeion meddyg teulu[7], mewn llawer o ardaloedd mae mwy o bartneriaid meddygon teulu yn ymddeol a cheir anawsterau arbennig wrth recriwtio mewn ardaloedd gwledig.

10 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru[8] trwy gyflwyno cronfa drawsnewid gwerth £100 miliwn. Caiff ei defnyddio i wella iechyd y boblogaeth, ysgogi integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal, datblygu gofal sylfaenol, darparu gofal yn nes at gartrefi, a thrawsnewid gwasanaethau ysbyty.

11 Felly mae'n amserol i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad cenedlaethol ynghylch gofal sylfaenol eleni. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd **Darlun o ofal cymdeithasol yng Nghymru**. Mae hyn yn darparu cipolwg ffeithiol o ofal sylfaenol yng Nghymru ac yn cynnwys gwybodaeth gefndirol nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Ac ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd **Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau**.

12 I ategu'r adroddiadau cenedlaethol hynny, mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) a wnaed rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018. Ystyriwyd a yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a nodir yn y cynllun cenedlaethol. Mae Atodiad 1 yn dangos ein dulliau. Canolbwyntiodd y gwaith yn benodol ar y meysydd canlynol:

- **Cynllunio strategol:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn ysgogi gweithrediad y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol mewn modd effeithiol ar lefel leol?
- **Buddsoddiad:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei gyllid i gefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?

[5] Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i Ofal Sylfaenol: Clystyrau. Hydref 2017.

[6] Llywodraeth Cymru. Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Medi 2017.

[7] Dywedodd Llywodraeth Cymru fod 91% o leoedd hyfforddi i feddygon teulu wedi'u llenwi yng Nghymru yn 2017. 16 Hydref 2017. http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2017/gprecruitnew/?lang=cy

[8] Yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Chwyldro o'r Tu Mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru. Adroddiad Terfynol. Ionawr 2018.

- **Gweithlu:** A yw'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa dda i gyflawni agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol?
- **Goruchwyliaeth:** A oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau goruchwylio ac arwain effeithiol sy'n cefnogi trawsnewidiad gofal sylfaenol?
- **Perfformiad:** A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro'i berfformiad a'i gynnydd yn effeithiol ac yn gweithredu ei gynllun gofal sylfaenol?

# Prif ganfyddiadau

13 Ein casgliad cyffredinol yw: **Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol ac mae'n gwneud cynnydd graddol o ran gweithredu elfennau allweddol y weledigaeth genedlaethol. Er bod lefelau perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer llawer o'r dangosyddion, mae'r pwysau cynyddol ar y gweithlu yn herio cynaliadwyedd gwasanaethau meddygon teulu craidd mewn rhai ardaloedd.** Mae Arddangosyn 2 yn nodi ein canfyddiadau allweddol yn fanylach.

Arddangosyn 2: ein prif ganfyddiadau

Tabl sy'n rhoi manylion ein prif ganfyddiadau.

| Ein prif ganfyddiadau |
|---|
| **Cynllunio strategol: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol. Mae'r cynlluniau wedi'u llywio gan gynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ond nid yw'r rhwydweithiau hyn wedi aeddfedu'n llawn eto.**<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithredu â phartneriaid ac mae wedi defnyddio sylfeini cynllunio cadarn i ymgorffori prif elfennau'r weledigaeth genedlaethol yn ei gynlluniau gofal sylfaenol.<br>• Mae gan bob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gynlluniau sy'n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ac mae arweinwyr rhwydweithiau yn fodlon ar y cyfan ar gymorth y Bwrdd Iechyd, er nad yw'r rhwydweithiau wedi aeddfedu'n llawn eto. |
| **Buddsoddiad: Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau clir o symud adnoddau'n agosach at adref a nodau i gynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol.**<br>• Mae cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd yn awgrymu gostyngiad mewn termau real i'r buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd dweud hynny ag unrhyw sicrwydd.<br>• Gall y Bwrdd Iechyd nodi enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol ac mae'n cryfhau'r ffordd y mae'n monitro ac yn dangos tystiolaeth o symudiadau o'r fath.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth fel mater o drefn ond nid yw holl arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn cytuno bod ganddynt ddigon o ymreolaeth ariannol.<br>• Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau gofal sylfaenol hyd yn hyn, ond mae'n defnyddio proses flaenoriaethu i lywio buddsoddiad mewn adeiladau gofal sylfaenol. |

| Ein prif ganfyddiadau |
|---|
| **Gweithlu: Mae heriau o ran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd rhai practisau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi asesu'r heriau hyn ac mae ar gamau cynnar profi atebion.**<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio'i weithlu presennol ac mae'n wynebu heriau sy'n cynnwys hyd rhestrau cynyddol, gweithlu sy'n heneiddio a diffyg meddygon teulu.<br>• Ceir heriau cynyddol i gynaliadwyedd practisau meddygon teulu ac mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd reoli nifer cynyddol o bractisau yn uniongyrchol am gyfnodau estynedig.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar gweithredu gweledigaeth genedlaethol o dimau gofal sylfaenol amlbroffesiwn. |
| **Goruchwyliaeth: Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cadarn ond nid yw'r dangosyddion perfformiad presennol yn caniatáu goruchwyliaeth o holl feysydd gofal sylfaenol ac mae lle am fwy o bwyslais ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd**<br>• Mae'r Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd yn hyrwyddwyr cryf dros drawsnewid gofal sylfaenol er bod lle i fwy o amser y Bwrdd ganolbwyntio ar ofal sylfaenol.<br>• Mae diffyg data mewn rhai meysydd allweddol o ofal sylfaenol yn llesteirio'r broses o fonitro perfformiad gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau.<br>• Meddygon teulu sy'n arwain y rhan fwyaf o'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a mynegodd yr arweinwyr farn gadarnhaol ar gymorth y Bwrdd Iechyd. |
| **Perfformiad: Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ac mae perfformiad yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, ond mae nifer o heriau anodd yn parhau**<br>• Mae llawer o agweddau ar berfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru er nad ydynt i gyd ar darged.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau gofal sylfaenol a chymunedol ond mae nifer o heriau anodd yn parhau. |

# Argymhellion

14 O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a nodir yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: argymhellion

Tabl yn amlinellu ein hargymhellion i'r Bwrdd Iechyd.

| Argymhellion |
|---|
| **Buddsoddi mewn gofal sylfaenol**<br>A1 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o sefydliadau eilaidd i rai cynradd a chymunedol, ni all ddangos bod y symud hwn yn digwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol.<br>b. Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaen a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. |

| Argymhellion |
| --- |
| **Goruchwylio gofal sylfaenol**<br>A2 Canfuwyd bod lle i wella proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd, yn arbennig ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer codi proffil gofal sylfaenol yn y Bwrdd Iechyd. Gallai camau gweithredu gynnwys sicrhau bod gofal sylfaenol yn eitem sefydlog ar agendâu'r Bwrdd, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol.<br>A3 Canfuwyd bod lle hefyd i wella sut y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. Adolygu cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau y rhoddir digon o sylw i ofal sylfaenol.<br>b. Adolygu amlder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol.<br>c. Adolygu'r ffordd y mae'n adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau ar hyn o bryd am ei gynnydd a'i gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol, ac yn bwysig, sut y mae'n adrodd ar well canlyniadau i gleifion mewn gofal sylfaenol. |
| **Ffyrdd newydd o weithio**<br>A4 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i weithredu ffyrdd newydd o weithio, mae angen cynnydd wrth werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn a'u cyllido o'r prif ffrwd. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. Gweithio gyda'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn.<br>b. Casglu gwerthusiadau o'r ffyrdd newydd o weithio mewn man canolog a rhannu'r hyn a ddysgwyd trwy gyhoeddi'r prif negeseuon ym mhob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.<br>c. Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau cyllido'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol.<br>d. Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn arbennig pwyntiau cyswllt cyntaf newydd mewn gofal sylfaenol a all arwain at lai o alw am apwyntiadau meddygon teulu. |
| **Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth**<br>A5 Canfuwyd amrywiaeth yn aeddfedrwydd y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, a lle i wella arweinyddiaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a. Adolygu aeddfedrwydd cymharol Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth pan fo angen.<br>b. Adolygu aelodaeth y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a phresenoldeb mewn cyfarfodydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i asesu a oes angen cynyddu cynrychiolaeth gan awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg a rhanddeiliaid eraill.<br>c. Egluro a chyhoeddi trefniadau arwain a rheoli Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau i wneud penderfyniadau.<br>d. Sicrhau bod arweinwyr yr holl Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn mynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.<br>e. Ystyried cyflwyno swydd arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth locwm i weithio ym mhob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i ddarparu capasiti ychwanegol ac ôl-lenwi i arweinwyr y clystyrau. Dylai'r swydd fod yn werthfawr hefyd i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. |

# Adroddiad manwl

## Cynllunio strategol: Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth genedlaethol. Mae'r cynlluniau wedi'u llywio gan gynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ond nid yw'r rhwydweithiau hyn wedi aeddfedu'n llawn eto

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithredu â phartneriaid ac mae wedi defnyddio sylfeini cynllunio cadarn i ymgorffori prif elfennau'r weledigaeth genedlaethol yn ei gynlluniau gofal sylfaenol

#### Mae gweddnewid gofal sylfaenol yn agwedd amlwg ar strategaeth gyffredinol a bwriadau cynllunio y Bwrdd Iechyd

15 Mae cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd Iechyd wedi'i nodi yn y Rhaglen Dyfodol Clinigol, a fu ar waith ers 2004. Mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo gwasanaethau yn y cartref neu'n agos i'r cartref, ynghyd â gwasanaethau ysbyty o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar 12 o Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth[9].

16 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal strategaeth gofal sylfaenol ers blynyddoedd lawer, daeth y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn bwyslais yn strategaeth y Bwrdd Iechyd yn y cynllun tymor canolig integredig a ddechreuodd yn 2015-16[10]. Cydnabu'r cynllun tymor canolig integredig y bu'r pwyslais ar ofal eilaidd yn y gorffennol a'i nod yw symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol.

17 Roedd cynllun tymor canolig integredig 2015-16 yn cynnwys nifer o gynlluniau newid gwasanaethau yn ymwneud â gofal sylfaenol. Nodwyd gweledigaeth yng Nghynllun Newid Gwasanaeth 3 - Gwasanaethau Gofal Sylfaenol (Contractwyr Annibynnol) ar gyfer practisau meddygon teulu, practisau optometreg, practisau deintyddol cyffredinol a fferyllfeydd cymunedol. Seiliwyd y Cynllun Newid Gwasanaeth ar y pum egwyddor o'r cynllun cenedlaethol a nododd yn glir yr angen am wasanaethau meddygol cyffredinol cynaliadwy, i fynd i'r afael â heriau sy'n gyffredin i'r DU gyfan o ran llwyth gwaith cynyddol, rheoli cleifion â chyflyrau mwy cymhleth a materion recriwtio a chadw. Nodwyd yn y cynllun hefyd yr angen am ystad cynaliadwy a gwella'r defnydd o wybodaeth a thechnoleg. Nodwyd datblygiadau eraill sy'n effeithio ar ofal sylfaenol a chymunedol mewn nifer o

[9] Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cynllun Strategol Rhwydweithiau Gofal Cymodgaeth 2013 – 2018.

[10] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cynllun Technegol Cynllun Tymor Canolig Integredig 2015/16 – 2017/18. Mawrth 2015.

gynllun newid gwasanaethau eraill yn ymwneud â lleihau anghydraddoldeb iechyd, darparu gofal yn nes at gartrefi a rheoli cyflyrau cronig.

18 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r pum awdurdod lleol yn rhan o Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf (y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol). Gorffennodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Strategaeth Gofal yn Nes at Gartrefi yn 2017 [11], sy'n cynrychioli lefel 1 o Strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'r strategaeth hon yn ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Seneddol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol er ar adeg ein gwaith archwilio nid oedd y strategaeth wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd.

19 Mae cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2018-19 ymlaen [12] yn nodi cynlluniau wedi'u diweddaru ar gyfer gofal sylfaenol o dan Gynllun Newid Gwasanaeth 2 – Cyflawni System Integredig o Iechyd, Gofal a Lles. Mae'r cynllun yn datgan bod Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn parhau i aeddfedu ac yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu modelau gwasanaethau iechyd, gofal a lles integredig.

20 Mae'r cynllun is-adrannol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol o 2018-19 ymlaen [13] yn nodi'n fanwl sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â heriau poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldeb iechyd a diffygion yn y gweithlu. Y bwriad yw ailfodelu gwasanaethau dros bum mlynedd i leihau cymhlethdod diangen a chyflawni ffordd fwy integredig, rhyngbroffesiynol o weithio ar draws adrannau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Mae'r cynllun hefyd yn datgan y bydd y model newydd o ddarparu gwasanaethau yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu 'hybiau' ffisegol a rhith mewn lleoliadau allweddol ym mhob bwrdeistref. Er na chytunwyd ar y lleoliadau eto, bydd yr hybiau iechyd a lles hyn yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau integredig sy'n berthnasol i'r boblogaeth leol.

## Mae cynllun is-adrannol gofal sylfaenol a chymunedol y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd yn dda â'r rhan fwyaf o agweddau allweddol ar y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol

21 Adolygwyd y cynllun is-adrannol i asesu a yw'n cynnwys elfennau allweddol o'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol a'r Model Trawsnewidiol. Canfuwyd bod y cynllun wedi'i ddatblygu'n dda yn y mwyafrif o ardaloedd, er bod nifer bach o ardaloedd y mae angen eu datblygu yn fwy. Meysydd cryf y cynllun:

- Integreiddio â strategaethau perthnasol eraill y Bwrdd Iechyd;
- Bwriad i symud adnoddau o ysbytai i leoliadau cymunedol;
- Cynlluniau gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol;

[11] Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf. Gofal yn Nes at Gartrefi: Strategaeth Iechyd a Lles Gwent Health 2017.

[12] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 – 2020/21. Mawrth 2018.

[13] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Is-adran Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Cynllun Is-adrannol Cynllun Tymor Canolig Integredig 2018/19 – 2020/21. Chwefror 2018.

- Defnyddio systemau brysbennu clinigol a thimau amlbroffesiwn;
- Swyddogaeth unedau cymorth gofal sylfaenol wrth gynnal practisau meddygon teulu; a
- Threfniadau ar gyfer arwain trawsnewidiad.

22 Mae meysydd y cynllun y mae angen eu datblygu'n fwy wedi'u nodi yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: meysydd y cynllun is-adrannol ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol y mae angen eu datblygu'n fwy

| Maes y cynllun | Cynnydd yr is-adran hyd yn hyn | Rhagor o waith datblygu sydd ei angen |
|---|---|---|
| Strategaeth ystadau ar sail tystiolaeth o anghenion gwasanaethau. | Mae gan yr Is-adran grŵp ystadau sy'n bwrw ymlaen â datblygiad strategaeth ystadau ym mhob ystad sylfaenol a chymunedol. | Mae angen strategaeth ystadau er mwyn sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol wedi'i dargedu'n briodol. |
| Sut y caiff technoleg fodern ei defnyddio'n effeithiol. | Bydd grŵp TG yr Is-adran yn bwrw ymlaen â'r gwaith o wella'r defnydd o TG mewn practisau meddygon teulu. | Gall defnydd arloesol o dechnoleg ddarparu atebion i'r heriau i ofal sylfaenol, fel brysbennu. |
| Gwerthuso sut y caiff gwell gofal sylfaenol ei fesur a'i adrodd, gan gynnwys tracio symudiad adnoddau. | Mae'r Is-adran yn mapio gwariant presennol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd ac yn ei feincnodi â byrddau iechyd eraill. Y mae wedi llunio fframwaith ac wedi creu grŵp o Gyfarwyddwyr Is-adrannol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Mae'r Is-adran hefyd yn bwriadu adrodd ar effaith swyddi newydd estynedig. | Mae gwerthuso yn bwysig er mwyn pennu ble mae buddsoddiad wedi gweithio neu heb weithio. Mae rhai prosiectau wedi'u gwerthuso ond heb eu hadrodd mewn ffordd gyson. |
| Gwerthuso effaith unrhyw newidiadau i wasanaethau gofal sylfaenol. | Mae'r gwerthusiadau a gyflawnwyd hyd yn hyn o brosiectau unigol felly nid ydynt yn dangos effaith newidiadau ar draws gofal sylfaenol ar gleifion. | Wrth fynd y tu hwnt i werthuso datblygiadau unigol, dylid gwerthuso effaith newidiadau i ofal sylfaenol ar gleifion. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gynllun Is-adrannol Cynllun Tymor Canolig Integredig Is-adran Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2018-19 – 2020-21

## Gall y Bwrdd Iechyd ddarparu enghreifftiau o ymgysylltu a chydweithredu da â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei gynlluniau gofal sylfaenol

23 Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn cydweithredu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu cynlluniau. Ymgynghorodd y Bwrdd Iechyd ar Dyfodol Clinigol yn ffurfiol yn 2014. Cafwyd cyfres o ddigwyddiadau gwrando yn dilyn hyn a strategaeth ymgysylltu yn 2015 [14]. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd drefniadau ymgysylltu helaeth ar Dyfodol Clinigol wedyn a llunio'r strategaeth Gofal yn Nes at Gartrefi ar y cyd â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

24 Enghreifftiau cadarnhaol eraill o ymgysylltu a chydweithredu ar ofal sylfaenol:

- Digwyddiadau Siarad am Iechyd a fforymau lleol yn y pum bwrdeistref; [15]
- Ymgysylltu â gwleidyddion lleol ynghylch trawsnewid gofal sylfaenol;
- Amryw o weithgareddau ymgysylltu a ddisgrifir yng nghynlluniau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth; a
- Gweithgareddau ymgysylltu penodol â'r cyhoedd pan gynigir y posibilrwydd o gau neu newid gwasanaethau gofal sylfaenol lleol.

25 Dywedodd cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol wrthym eu bod yn trafod yn rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, pan roddir gwybod i'r Cyngor Iechyd Cymunedol am strategaethau a datblygiadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cyflwyno ac wedyn yn gallu cynnig awgrymiadau i'r strategaeth wrth symud ymlaen.

26 Gall y Bwrdd Iechyd ddangos rhai enghreifftiau o ymgysylltu cadarnhaol â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol, gan gynnwys:

- gweithdai gydag arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i bennu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y cynllun tymor canolig integredig;
- perthynas gadarnhaol â Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent, er y mynegodd y cynrychiolydd o'r Pwyllgor Meddygol Lleol rwystredigaeth na chaiff y syniadau a gynigir gan aelodau'r Pwyllgor eu gweithredu bob amser; a
- chyflawni newidiadau llwyddiannus i wasanaethau trwy gydweithredu â Phwyllgor Optometreg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru.

[14] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Strategaeth Ymgysylltu. Bwrdd, 28 Ionawr 2015.

[15] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn Ymgysylltu. Bwrdd, 27 Ionawr 2017.

## Mae gan bob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth gynlluniau sy’n cefnogi gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ac mae arweinwyr rhwydweithiau yn fodlon ar y cyfan ar gymorth y Bwrdd Iechyd, er nad yw’r rhwydweithiau wedi aeddfedu’n llawn eto

27 Edrychwyd ar sut y mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth i Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth wrth ddatblygu asesiadau o anghenion lleol a chynlluniau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Canfu ein harolwg o arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth:

- cytunodd y saith ymatebwr eu bod wedi cael arweiniad defnyddiol gan y Bwrdd Iechyd wrth ddatblygu ei gynllun clwstwr;
- cytunodd y saith ymatebwr eu bod wedi cael cymorth gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu dadansoddiad o anghenion eu poblogaeth leol; a
- chytunodd chwe ymatebwr fod y Bwrdd Iechyd yn gwrando ar y clwstwr wrth ddatblygu blaenoriaethau gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd Iechyd.

28 Mae Arddangosyn 5 yn dangos barn arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a’r clystyrau ar lefel yr aeddfedrwydd yn eu Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth neu glwstwr. Yn y Bwrdd Iechyd, dywedodd chwe ymatebwr fod eu Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni, a dywedodd un ymatebwr fod y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn datblygu. Aneurin Bevan yw’r unig fwrdd iechyd lle na wnaeth yr un o’r arweinwyr farnu eu clwstwr yn aeddfed.

### Arddangosyn 5: barn arweinwyr clystyrau a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ar lefel datblygiad eu sefydliad

Mae’r tabl yn dangos nifer y clystyrau ar y tair lefel o aeddfedrwydd.

| | 1 = Yn datblygu | 2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni | 3 = Aeddfed |
|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 1 | 4 | 2 |
| Aneurin Bevan | 1 | 6 | 0 |
| Betsi Cadwaladr | 2 | 5 | 1 |
| Cwm Taf | 0 | 5 | 2 |
| Caerdydd a’r Fro | 1 | 5 | 2 |
| Hywel Dda | 0 | 4 | 1 |
| Powys | 1 | 1 | 1 |
| Cymru | 6 | 30 | 9 |

Sylwer:
1 =Yn datblygu: ar gamau datblygu cynnar ac mae angen cymorth sylweddol; nid yw pob aelod o'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn.
2 = Yn sefydlog ac yn dechrau cyflawni: Wedi dechrau cyflawni rhai buddion, ond yn dal ar gamau cynnar; mae angen i gymorth barhau ac nid yw'r potensial llawn wedi'i wireddu eto.
3 = Aeddfed: mae holl aelodau'r clwstwr wedi ymgysylltu'n llawn; yn cyflawni ar draws nifer o feysydd yn unol â chynllun y clwstwr.
Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

29 Mae'r Is-adran yn darparu cymorth i'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth trwy dimau staff pwrpasol. Ceir rheolwyr partneriaeth, rheolwyr rhwydwaith a swyddogion cymorth ar lefel Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a thimau o staff i gefnogi pob un o'r contractau proffesiynol.

30 Mae timau cymorth Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn helpu i ddehongli canllawiau cenedlaethol ac tynnu ynghyd themâu o'r Cynlluniau Datblygu Practis a gyflwynir gan bractisau meddygon teulu unigol. Mae timau cymorth hefyd yn goruchwylio gwariant Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn cydlynu fforymau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, yn cynrychioli Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth mewn cyfarfodydd, ac yn helpu i weithredu prosiectau ar ran y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Anogir aelodau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth hefyd i gymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys 1000 o Fywydau Cymru Gwella Ansawdd ar y Cyd ar lefel arian.


31 Dywedodd staff yr is-adran wrthym fod dull ysgafn y Bwrdd Iechyd o gefnogi Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ar y dechrau wedi arwain at ormod o amrywio rhwng gallu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i gynllunio a chyflawni newid trawsnewidiol. Dywedodd staff wrthym hefyd er bod yr holl Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn datblygu'n sefydliadau cryfach, roedd gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau y gall pob un ohonynt gynllunio a chyflawni newid i wasanaethau.

## Buddsoddiad: Mae gan y Bwrdd Iechyd rai enghreifftiau clir o symud adnoddau'n agosach at adref a nodau i gynyddu buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol

### Mae cyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd yn awgrymu gostyngiad mewn termau real i'r buddsoddiad mewn gofal sylfaenol, ond mae fformat y cyfrifon yn ei gwneud yn anodd dweud hynny ag unrhyw sicrwydd

32 Mae Arddangosyn 6 wedi'i seilio ar ddata o gyfrifon blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n nodi'r gwariant hirdymor ar ofal sylfaenol. Mae'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a gwariant Gofal Iechyd Sylfaenol Arall [16]. Mae'r arddangosyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gwario £158.9 miliwn ar y gwasanaethau gofal sylfaenol hyn yn 2016-17, sy'n gynnydd ar y £149.9 miliwn yn 2010-11.

Arddangosyn 6: gwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau gofal sylfaenol




[16] Heb gynnwys gwariant o £95 miliwn ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn

Sylwer: Nid yw'r echel-y yn dechrau ar sero. Nid ydym wedi cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn oherwydd natur amrywiol y gwariant hwn, yn rhannol o ganlyniad i amrywio prisiau cyffuriau. 'Gofal Iechyd Sylfaenol arall' yw categori torfol yn y cyfrifon a ddefnyddir i gofnodi gwariant ar nifer o eitemau a gwasanaethau gofal sylfaenol nad ydynt yn dod o dan y categorïau eraill.

Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol Byrddau Iechyd Lleol

33 Mae'r duedd yn Arddangosyn 6 yn dangos cynnydd graddol mewn gwariant o 2010-11 i 2016-17. Eglurodd yr Is-adran fod gwariant wedi cynyddu mewn gofal sylfaenol deintyddol, optometreg ac 'Arall' yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yng ngwariant y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol rhwng 2015-16 a 2016-17 gan fod adolygiad gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ailasesu'r cyfraddau busnes a oedd yn ddyledus ar gyfer practisau meddygon teulu ar sail prisiad is dros nifer o flynyddoedd. Arweiniodd hyn at ddyraniad cyllideb llai ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn 2016-17.

34 Ar ôl ystyried effaith chwyddiant, cafwyd gostyngiad o 1% mewn termau real yng ngwariant cyffredinol y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2016-17, ac nid yw hyn yn ddigon i gyd-fynd â chwyddiant.

35 Ledled Cymru canfuwyd problemau yn y dull y cofnodir gwariant ar ofal sylfaenol yn y cyfrifon. Ni chaiff gwariant ei gategoreiddio mewn modd cyson gan fyrddau iechyd ac yn aml nid yw'r ffigurau a gofnodir yn y cyfrifon yn cynrychioli cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal sylfaenol nad yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau uchod. Yn 2016-17, cafodd y Bwrdd Iechyd £8.4 miliwn yn ychwanegol a ddyrannwyd yn y ffyrdd canlynol:


- £4.4 miliwn ar gyfer 12 prosiect i drawsnewid gwasanaethau ar draws gwasanaethau cynradd, cymunedol ac iechyd meddwl (e.e. tîm cymorth gofal sylfaenol, trawsnewid y gwasanaeth gwrthgeulo, Byw yn Dda Byw'n Hirach);
- £1.88 miliwn i'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddatblygu gweithgareddau newydd ar sail eu cynlluniau eu hunain;
- £1.236 miliwn ar gyfer y prosiectau pennu cyfeiriad ac ysgogi arloesi (Achrediad Mynediad (A is for Access), dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint, Canolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig/glawcoma, deddf gofal gwrthgyfartal cardiofasgwlaidd);
- £0.67 miliwn i gefnogi'r gweithlu gofal sylfaenol(e.e. datblygu cymorth fferyllol mewn cartrefi gofal, tîm imiwneiddio plant dan arweiniad nyrs gofal sylfaenol); a
- £0.225 miliwn ar gyfer prosiectau eraill (e.e. datblygu gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer meddygon teulu).

## Gall y Bwrdd Iechyd nodi enghreifftiau penodol o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol ac mae'n cryfhau'r ffordd y mae'n monitro ac yn dangos tystiolaeth o symudiadau o'r fath

36 Ers sawl blwyddyn, mae GIG Cymru wedi cynllunio i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, er mwyn gwrthdroi'r 'tan-ddatblygiad ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru' [17]. Fodd bynnag, mae materion fformat cyfrifon y GIG yn ei gwneud yn anodd nodi a yw byrddau iechyd wedi sicrhau symudiadau o'r fath.

37 Mae Arddangosyn 7 yn dangos gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys gwariant ar gyfarpar a meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Mae'r arddangosyn yn dangos nad yw gwariant ym maes gofal sylfaenol yn gyson â chyfanswm y gwariant mewn byrddau iechyd, er gwaethaf blaenoriaethau cenedlaethol i symud tuag at ofal sylfaenol ledled Cymru. Mae tuedd y Bwrdd Iechyd yn debyg i duedd Cymru gydag uchafbwynt yn 2013-14 yn dilyn blwyddyn ar ôl blwyddyn o ostyngiadau.

Arddangosyn 7: gwariant y Bwrdd Iechyd ar ofal sylfaenol ar ffurf canran o gyfanswm ei wariant (Cost Gweithredu Net, 2010-11 hyd 2016-17)




Sylwer: Nid yw'r echel-y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol Byrddau Iechyd Lleol

[17] Llywodraeth Cymru. Gwella Iechyd yng Nghymru: Dyfodol Gofal Sylfaenol. Gorffennaf 2001.

38 Gofynnwyd a yw byrddau iechyd yn cymryd camau penodol i gyflawni symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. Canfuwyd nad yw'r un o'r byrddau iechyd wedi pennu targedau ar gyfer symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol ac nad yw'r un o'r byrddau iechyd wedi meintioli faint o adnoddau a symudwyd tuag at ofal sylfaenol ers dechrau'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn 2014.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod angen iddo allu darparu tystiolaeth o symud arian a gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. I gyflawni hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith yn ddiweddar i gefnogi symudiad gwasanaethau o leoliadau gofal eilaidd i ofal sylfaenol, ar sail datblygu achos busnes clir ar gyfer pob gwasanaeth y bydd yn dymuno'i newid [18].

40 Mae'r pwyntiau bwled isod yn dangos rhai enghreifftiau penodol o'r Bwrdd Iechyd lle mae gwasanaethau ac adnoddau wedi symud o ysbytai i ofal sylfaenol a chymunedol:

- Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig: O ganlyniad i restrau aros hir ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg yn yr ysbyty, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu gwasanaethau asesu a thriniaeth ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint a glawcoma mewn lleoliadau optegydd ar y stryd fawr ym mhob bwrdeistref. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid pennu cyfeiriad gwerth £240,000 am dair blynedd. Yn 2018-19, bydd cyllid blynyddol gwerth £161,000 yn dod o gyllideb gofal eilaidd y Bwrdd Iechyd.
- Gwasanaeth Gwrthgeulo Gofal Sylfaenol: mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid o £763,500 y flwyddyn i ariannu trosglwyddiad profion y Gymhareb Normaleiddio Ryngwladol [19] o ysbytai i ofal sylfaenol. Mae defnydd o brofion y Gymhareb Normaleiddio Ryngwladol mewn practisau gofal sylfaenol wedi bod yn dda ac mae mesurau perfformiad eisoes yn dangos gostyngiad yn nifer y profion a wneir mewn ysbytai a llai o dderbyniadau brys oherwydd cymhlethdodau. Mae'n fwy gyfleus i gleifion hefyd. Ar adeg yr archwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn archwilio sut i ariannu'r gwasanaeth hwn yn y tymor hwy.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu symud amrywiaeth o wasanaethau eraill i ofal sylfaenol, gan gynnwys llawdriniaeth croen estynedig, gwasanaethau orthodonteg arbenigol a chymorth ar gyfer cyflyrau cronig fel diabetes a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint.

[18] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Gwella gwerth trwy fframwaith ariannol effeithlonrwydd dyrannu a thechnegol i gefnogi symudiad gwasanaethau acíwt eilaidd i ddarparu gwasanaeth cymunedol/sylfaenol.

[19] Rhagnodir meddyginiaeth wrthgeulo, fel warfarin, yn aml i bobl sydd wedi cael cyflwr wedi'i achosi gan glot gwaed, fel strôc. Mae'r gymhareb normaleiddio ryngwladol yn mesur faint o amser mae'n cymryd i waed geulo, a defnyddir hyn i benderfynu faint o ddos o warfarin sydd ei angen [Gwefan y GIG].

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth fel mater o drefn ond nid yw holl arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn cytuno bod ganddynt ddigon o ymreolaeth ariannol

42 Mae angen i fyrddau iechyd gael y cydbwysedd iawn rhwng rhoi ymreolaeth i glystyrau a goruchwylio eu gwariant. Dull y Bwrdd Iechyd o oruchwylio gwariant Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yw llunio data monitro misol ar sefyllfa ariannol pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ynghylch faint o’u dyraniad sydd ar gael i’w wario o hyd, a’u cynlluniau ar gyfer gwario’r arian. Adroddir y sefyllfa ariannol gyffredinol yng nghyfarfodydd Arweinwyr Clinigol y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

43 Yn ein harolwg o arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, canfuwyd bod y saith ymatebwr yn cytuno bod y Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn effeithiol. Cytunodd y saith ymatebwr i’n harolwg fod y clwstwr yn gwario’r holl gyllid mae’n ei gael, a chytunodd chwech o’r saith ymatebwr y gall y clwstwr wario’r cyllid yn gyflym pan fydd wedi penderfynu sut i ddyrannu ei gyllid. Dim ond tri o’r ymatebwyr oedd yn cytuno bod y bwrdd iechyd yn rhoi digon o ymreolaeth ariannol i fy nghlwstwr. Dywedodd y pedwar ymatebwr arall nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â’r datganiad hwn.

## Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau gofal sylfaenol hyd yn hyn, ond mae’n defnyddio proses flaenoriaethu i lywio buddsoddiad mewn adeiladau gofal sylfaenol

44 Mae cynllun tymor canolig integredig 2015-16 y Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw llawer o’r adeiladau gofal sylfaenol yn addas i’w diben ac nad ydynt yn cefnogi estyniad yr amrywiaeth o wasanaethau a ragwelir yn ei gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol. Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau gofal sylfaenol, mae’n defnyddio dull ystyriol o ymchwilio i eiddo gofal sylfaenol. Bob blwyddyn mae’n cynnal proses flaenoriaethu i nodi pa gynlluniau y mae’n dymuno’u rhoi ar waith trwy gyllid Llywodraeth Cymru.

45 Agorodd y Bwrdd Iechyd ganolfan gofal sylfaenol newydd ym Mrynmawr ym mis Mehefin 2018 ac mae’n bwriadu agor canolfan arall yn Llanbradach yng ngwanwyn 2019. Mae’r datblygiadau hyn yn cynnwys datblygwyr trydydd parti ac maent wedi’u hariannu gan arian refeniw y Bwrdd Iechyd. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth i ddatblygu canolfannau iechyd a llesiant â gwerth cyfalaf o ryw £68 miliwn ledled Cymru. [20] Roedd datblygu canolfannau yn Nhredegar a Chasnewydd yn rhan o’r cyhoeddiad hwn.

[20] Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Vaughan Gething gynlluniau ar gyfer 19 canolfan iechyd a gofal newydd ledled Cymru. 6 Rhagfyr 2017.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu rhyw £300,000 y flwyddyn o grantiau gwella i gefnogi seilwaith gofal sylfaenol[21]. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, lle clinigol cynyddol a rheolaeth well ar heintiau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn gyfrifol am gynllunio ystadau ar lefel bwrdeistref gyda chymorth tîm cynllunio'r Bwrdd Iechyd.

47 Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn arwain y rhan fwyaf o ddatblygiadau TG gofal sylfaenol ond rhoddodd y Bwrdd Iechyd £320,000 o gyllid yn 2016-17 ar gyfer offer fel setiau pen i staff y dderbynfa a sgriniau cyfrifiaduron.

48 Mae cynlluniau rhai Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn cynnwys datblygiadau TG, gan gynnwys cyflwyno Fy Iechyd Ar-lein i drefnu apwyntiadau a phresgripsiynau amldro, a dyfeisiau symudol ar gyfer nyrsys ardal. Hefyd, mae rhai practisau meddygon teulu yng Ngwent yn treialu Skype ar gyfer ymgynghoriadau[22].

# Gweithlu: Mae heriau o ran y gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd rhai practisau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi asesu'r heriau hyn ac mae ar gamau cynnar profi atebion


## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mapio'i weithlu presennol ac mae'n wynebu heriau sy'n cynnwys hyd rhestrau cynyddol, gweithlu sy'n heneiddio a diffyg meddygon teulu

49 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer ychydig yn uwch o feddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth (6.44) na chyfartaledd Cymru (6.19) (Arddangosyn 8). Fodd bynnag, mae nifer y partneriaethau meddygon teulu wedi gostwng o 88 ym mis Medi 2014 i 78 ar adeg ein harchwiliad, ac mae canran y partneriaethau lle ceir un partner yn unig (18%) ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (11%).

[21] Cyfarwyddiadau y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - Costau Adeiladau) (Cymru) 2015 (2015 Rhif 9)


[22] www.publictechnology.net/articles/features/how-skype-ending-isolation-nhs-staff-wales

Arddangosyn 8: nifer y meddygon teulu am bob 10,000 o'r boblogaeth




50 Fel y dangosir yn Arddangosyn 9, mae maint cyfartalog rhestrau am bob meddyg teulu yn y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu er ei bod yn llai na chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 9: maint rhestr gyfartalog pob meddyg teulu




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Medi 2017

51 Mae Arddangosyn 10 yn dangos bod cyfran y meddygon teulu sy'n fenywod yn y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru, a bod cyfran y meddygon teulu sy'n 55 oed neu'n hŷn yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 10: demograffeg meddygon teulu yn ôl oedran a rhyw

| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Cymru |
|---|---|---|
| • Dros 55 oed | 22% | 23% |
| • Benyw | 58% | 54% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 30 Medi 2017

52 Mae nifer y deintyddion a'r optometryddion sy'n cynnig gofal GIG yn cynyddu. Roedd gan y Bwrdd Iechyd 309 o gontractwyr Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn 2017, sy'n fwy na'r 285 yn 2014. Cynyddwyd nifer yr optometryddion hefyd, o 149 yn 2014 i 159 yn 2017.

53 Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fapio'u gweithlu. Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Gweithlu Gofal Sylfaenol sy'n adolygu data'r gweithlu, datblygu cynlluniau recriwtio ac yn ystyried swyddi/modelau gwahanol. Maent wedi dadansoddi statws oedran, rhyw a statws cyflogaeth y gweithlu ym mhob practis Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, gan gynnwys meddygon teulu a'r holl staff clinigol anfeddygol a gyflogir yn uniongyrchol gan y practisau neu'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi adolygu proffil oedran staff gofal sylfaenol a chymunedol a gyflogir yn uniongyrchol ar draws yr Is-adran. Mae bron i 40% o weithlu'r Is-adran yn 50 oed neu'n hŷn, ac mae 20% arall yn hŷn na 55 oed.

55 Mae'r Is-adran wedi cymharu ei modelau gofal â rhai gweddill y DU i asesu cyfleoedd i addasu'r cymysgedd sgiliau. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd broses fodelu i ragfynegi nifer y meddygon teulu a'r swyddi estynedig eraill sydd eu hangen yng Ngwent i gynnal gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r model hwn yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o 35 o feddygon teulu parhaol o'i gymharu â'r meincnod y dewisodd o 1 meddyg teulu cyfwerth ag amser llawn am bob 1,800 o'r boblogaeth. Mae'r adran ganlynol yn trafod dull y Bwrdd Iechyd o greu gweithlu gofal sylfaenol mwy sefydlog a chynaliadwy.

## Ceir heriau cynyddol i gynaliadwyedd practisau meddygon teulu ac mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd reoli nifer cynyddol o bractisau yn uniongyrchol am gyfnodau estynedig

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ers rhyw flwyddyn neu fwy bod nifer cynyddol o bartneriaid meddygon teulu yn ymddeol, sy'n bygwth cynaliadwyedd practisau. Ym mis Tachwedd 2017, lluniodd yr Is-adran adroddiad trylwyr ar gynaliadwyedd practisau meddygon teulu. Nododd yr adroddiad fod yr heriau i gynaliadwyedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn fwy na'r rheini yn y 65 mlynedd cyn hynny. Mae'r adroddiad yn cynnwys 32 o argymhellion i gefnogi cynllun a darpariaeth gwasanaethau cyfoes a chadarn i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y tymor byr, canolig a hir. Mae ganddynt gynllun gweithredu manwl ac maent wedi sefydlu bwrdd cynaliadwyedd gofal sylfaenol i oruchwylio gweithrediad yr argymhellion.

57 I nodi practisau sydd mewn peryg o gau, mae'r Is-adran yn defnyddio'r fframwaith cynaliadwyedd practisau meddygon teulu ym mhob practis yng Ngwent. Nododd yr Is-adran 14 o bractisau mewn perygl mawr, 22 mewn perygl canolig a 43 mewn perygl bach. Yr ardaloedd lle ceir y nifer mwyaf o bractisau mewn perygl yw Blaenau Gwent a Gogledd Caerffili. Mae'r Is-adran yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu i lunio atebion ar gyfer rhaglen darged o gymorth i bractisau mewn perygl mawr a chanolig. [23]

58 Mae llawer o fyrddau iechyd wedi datblygu Unedau Cymorth Gofal Sylfaenol (er bod enwau'r rhain yn amrywio ledled Cymru) i gefnogi practisau meddygon teulu. Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Cymorth Gweithredol Gofal Sylfaenol. Mae staff y tîm hwn yn gweithio gyda staff practisau mewn amryw o swyddi clinigol a rheoli. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi recriwtio arweinwyr clinigol yn llwyddiannus i'r Tîm ond mae'r Pwyllgor Meddygol Lleol wedi mynegi pryder y cafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus eu penodi o'r gronfa bresennol o feddygon teulu, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y practisau y buont yn gweithio ynddynt.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli pedwar practis yn uniongyrchol. Mae practisau wedi'u trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd oherwydd bod partneriaid practisau wedi ymddeol ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu dod o hyd i bobl newydd i dderbyn y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau ymddeol hyn yn cynnwys niferoedd uchel o gleifion â chyflyrau cymhleth sy'n rhoi mwy o bwysau galw ar amser clinigol, a chyflwr gwael adeiladau practisau.

60 Weithiau caiff practisau eu dychwelyd i'r Bwrdd Iechyd â chyn lleied â thri mis o rybudd. Yn y gorffennol, roedd practis a reolwyd yn uniongyrchol yn fesur dros dro, ac un ar y tro oedd gan y Bwrdd Iechyd, ond mae'n gynyddol anodd dychwelyd practisau a reolir i ddeiliad contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol er gwaethaf hysbysebu'n helaeth a darparu adeiladau newydd. Mae un practis wedi'i reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd er tair blynedd bellach.

[23] Llywodraeth Cymru. Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd Meddygon Teulu 2017/18. 21 Ebrill 2017.

61 Mae partneriaid practisau yn dewis uno practisau yn fwyfwy erbyn hyn gan eu bod yn cydnabod cyfyngiadau practisau bach. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cau saith meddygfa cangen yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd anawsterau darparu digon o staff i weithredu'r canghennau hyn.

62 Cafodd y Bwrdd Iechyd gyllid gan Lywodraeth Cymru o ychydig dros £1 miliwn yn 2016-17 a 2017-18 i gynnal y Tîm Cymorth Gweithredol Gofal Sylfaenol. Mae gwariant ar bractisau a reolir wedi cynyddu hefyd. Mae'r Is-adran yn amcangyfrif bod cost practis a reolir £200,000 y flwyddyn yn fwy na thrwy Wasanaethau Meddygol Cyffredinol oherwydd bod practisau a reolir yn dibynnu ar feddygon locwm â chost uwch.

63 Mae'r Is-adran yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â symud gwasanaethau ychwanegol i bractisau meddygon teulu sydd dan straen eisoes.

## Mae'r Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar gweithredu gweledigaeth genedlaethol o dimau gofal sylfaenol amlbroffesiwn

64 Mae'r cynllun cenedlaethol yn datgan mai swyddogaeth meddygon teulu yn y dyfodol fydd darparu arweiniad cyffredinol i dimau amlbroffesiwn. Byddai'r timau hyn yn cynnwys fferyllwyr, therapyddion, optometryddion, parafeddygon, uwch nyrsys practisau ac eraill. Mae'r cynllun gweithlu cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i fyrddau iechyd nodi cyfleoedd i'r gweithwyr proffesiynol hyn wella mynediad trwy ddarparu pwynt cyswllt cyntaf i gleifion.

65 Mae cynllun tymor canolig integredig yr Is-adran yn nodi tri model y mae'n eu harchwilio ar gyfer ffyrdd newydd o weithio mewn gofal sylfaenol a chymunedol:

- model gofal sylfaenol: mae'r model hwn yn tybio os yw practis yn brin o un meddyg teulu, gallai nyrs uwch wneud 50% o waith meddyg teulu, gallai fferyllydd wneud 25% a gallai gweithwyr proffesiynol eraill wneud y 25% sy'n weddill.
- model gofal graddedig: mae'r Bwrdd Iechyd yn cau gwelyau cymunedol ar ddwy ward a gallai meddygon teulu arwain y gwasanaethau yn eu lle. Caiff yr egwyddorion Buurtzorg[24] eu cymhwyso i raglen dreialu nyrsio cymunedol i lywio model newydd o nyrsio cymunedol.
- model integredig: i gyflawni'r strategaeth Gofal yn Nes at Gartrefi, mae'r Is-adran yn datblygu ei chynllun pum mlynedd i ddarparu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol trwy'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wrth i'w gweithlu presennol weithio hyd eithaf eu sgiliau a chyflogi staff ychwanegol o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau i swyddi newydd.

66 Y prif faes gweithgarwch a ariannwyd gan y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth fu penodi 16.60 o fferyllwyr cyfwerth ag amser llawn wedi'u lleoli mewn practisau yn

[24] Dechreuodd y model Buurtzorg o nyrsio ardal yn yr Iseldiroedd ac mae wedi'i efelychu ledled y byd. Mae pob tîm nyrsio Buurtzorg yn arunig, yn gwneud ei benderfyniadau ei hun, ac yn cynnwys nyrsys cofrestredig yn unig. Mae pob nyrs yn gweithio i lunio a gweithredu'r cynllun gofal mwyaf priodol ac effeithiol ar sail anghenion unigolyn.

ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae rhai practisau hefyd wedi cyflogi eu fferyllwyr eu hunain. Canfyddiadau cychwynnol gwerthusiad y Bwrdd Iechyd o fferyllwyr mewn practisau yw y gall fferyllwyr dreulio dwywaith yn fwy o amser gyda chleifion o'i gymharu â meddygon teulu, ond mae'r gist yn is ac mae ansawdd yr adolygiad meddyginiaethau yn well.

67 Mae'r pwyntiau bwled isod yn disgrifio swyddi newydd eraill a gyflwynwyd mewn Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth:

- mae presgripsiynu cymdeithasol yn Nhorfaen wedi'i ariannu ar y cyd gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r awdurdod lleol. Mae rhagnodwyr cymdeithasol yn galluogi cleifion i gael gwybodaeth am wasanaethau cyfreithiol a budd-daliadau lleol. Canfu arolwg o ymarferwyr gofal sylfaenol y dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod rhagnodwyr cymdeithasol wedi lleihau'r galw am ymgyngoriadau gofal sylfaenol, ac wedi arwain at ddefnydd mwy priodol o'r ymgynghoriadau hynny[25].
- penodwyd un ar ddeg o weithwyr cymdeithasol wedi'u lleoli mewn practisau gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth yng Nghaerffili, wedi'u hariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig, gwasanaethau cymdeithasol a ffynonellau eraill. Mae'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi asesu bod y gweithwyr cymdeithasol hyn yn gweithio'n dda yn nhimau amlddisgyblaeth y practisau a chytunwyd i gynnal y cyllid ar gyfer 2017-18. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi tynnu ei gyllid yn ôl oherwydd y gost uchel. Dywedodd arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth eu bod yn anfodlon ar hyn oherwydd eu bod yn ystyried bod y gweithwyr cymdeithasol yn llwyddiant.

68 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn recriwtio dau gydymaith meddygol i weithio mewn gofal sylfaenol. Er bod gan GIG Cymru fframwaith llywodraethu ar gyfer cyflogi cymdeithion meddygol, nid ydynt wedi'u rheoleiddio'n llawn hyd yn hyn gan sefydliad fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'n bwysig darparu goruchwyliaeth dda a gwerthuso'u heffaith yn barhaus.[26]

69 Mae'r Model Trawsnewidiol yn amlygu pwysigrwydd timau amlddisgyblaethol uwch sy'n darparu adnodd ar y cyd i'r holl bractisau mewn clwstwr. I weithredu'r model hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn recriwtio therapyddion galwedigaethol, uwch-ymarferwyr nyrsio ac uwch barafeddygon. Fodd bynnag, ceir cymhlethdodau oherwydd bod sefydliadau eraill fel Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cystadlu i recriwtio'r bobl hyn.

70 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio un practis a reolir ym Mrynmawr, Dwyrain Blaenau Gwent, i brofi'r Model Trawsnewidiol ac mae wedi gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hyn. Symudodd practis Blaen y Cwm i adeilad

[25] Presgripsiynu Cymdeithasol yn Nhorfaen: Partneriaeth rhwng Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth Gogledd a De Torfaen, Y Gwersi a Ddysgwyd Hyd yn Hyn: Hydref 2015-Mawrth 2017.
www.primarycareone.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1191/Social%20Prescribing%20in%20Torfaen%20Oct%2015%20-%20Mar%2017.pdf

[26] www.gpone.wales.nhs.uk/opendoc/293958

newydd ym mis Mehefin 2018. Bydd y ganolfan adnoddau newydd yn darparu gwasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddion Cymunedol, Nyrsio Ardal, Gwasanaethau Atgenhedlu ac Iechyd Rhywiol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Sgrinio Retinopathi Diabetig a Fferyllfa.

71 Mae'r Model Trawsnewidiol yn amlygu'r angen am systemau cyfrannol i frysbennu ar aelodau'r tîm gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn treialu sustemau brysbennu electronig mewn rhai practisau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan nad yw practisau meddygon teulu yn adrodd i'r Bwrdd Iechyd pa ymarferwyr sy'n ymdrin â'r cleifion ar hyn o bryd, mynegodd y Bwrdd Iechyd bryderon ei bod yn anodd asesu pa mor dda mae brysbennu yn gweithio yn ymarferol.

72 Dywedodd y cynrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymunedol fod y model tîm gofal sylfaenol amlbroffesiwn (a elwir model Prestatyn) yn arwain at effaith gadarnhaol ar faterion cynaliadwyedd presennol meddygon teulu. Hoffai'r Cyngor Iechyd Cymunedol weld y model hwn yn cael ei gyflwyno mewn mannau eraill o fewn gofal sylfaenol, ond nododd ei bod yn hollbwysig bod cleifion yn deall pam y mae gofyn iddynt weld gweithiwr gofal sylfaenol proffesiynol gwahanol yn lle eu meddyg teulu. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y dull hwn a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth i gynyddu cefnogaeth y cyhoedd tuag at y ffyrdd newydd hyn o weithio.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd yn manteisio ar bob cyfle i fynd i'r afael â'r heriau iddynt o ran recriwtio a chadw meddygon teulu. Mae hefyd yn cydnabod buddion darparu gwell mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau o fewn gofal sylfaenol. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y dull hwn a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth i gynyddu cefnogaeth y cyhoedd tuag at y ffyrdd newydd hyn o weithio.

# Goruchwyliaeth: Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau arweinyddiaeth cadarn ond nid yw'r dangosyddion perfformiad presennol yn caniatáu goruchwyliaeth o holl feysydd gofal sylfaenol ac mae lle am fwy o bwyslais ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd

## Mae'r Prif Weithredwr a'r Is-gadeirydd yn hyrwyddwyr cryf dros drawsnewid gofal sylfaenol er bod lle i fwy o amser y Bwrdd ganolbwyntio ar ofal sylfaenol

74 I drawsnewid gofal sylfaenol, mae angen trefniadau eglur ac effeithiol ar fyrddau iechyd ar gyfer goruchwylio ac uwch-arweinyddiaeth. Mae gan is-gadeiryddion byrddau iechyd gyfrifoldeb penodol i hyrwyddo gofal sylfaenol. Mae'r Is-gadeirydd yn cadeirio'r Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Lles a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sef prif ysgogydd datblygiad y strategaeth Gofal yn Nes at Gartrefi, sy'n cynnwys moderneiddio gofal sylfaenol yng Ngwent. Mae'n mynychu pob cyfarfod arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a chyfarfodydd lleol i leihau'r bwlch rhwng y Bwrdd ac ymarferwyr gofal sylfaenol. Daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ym mis Mehefin 2018 er y bydd yn parhau am flwyddyn arall gyda'r Bwrdd Iechyd fel ymgynghorydd arbennig.

75 Mae gan y Prif Weithredwr afael gadarn ar ofal sylfaenol a fe yw'r prif aelod gweithredol ar y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol. Unodd y Bwrdd Iechyd gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn un Is-adran yn 2018. Ceir tîm cryf yn yr Is-adran a chefnogaeth i'r Model Trawsnewidiol gan y Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Is-adrannol Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Pennaeth Gofal Sylfaenol, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd a'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol. Maent yn gweithio'n agos gyda rheolwyr busnes is-adrannol adnoddau dynol, cynllunio, perfformiad a chyllid i gefnogi'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a gweithredu eu cynlluniau.

76 Y Prif Swyddog Gweithredu yw Arweinydd Gweithredol y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol, ac mae'n cyflawni'r swydd hon ochr yn ochr â gofal cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn ogystal ag arwain cyflawniad gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu. Mae hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Gofal Sylfaenol a Datblygu Rhwydweithiau. Er bod hyn yn bortffolio eang, mae'n darparu arweiniad clir ar gyfer yr agenda trawsnewid gofal sylfaenol a chymunedol gyfan.

77 Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol yn ymgysylltu'n rheolaidd â gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol. Mae'n rheolwr llinell i arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ac yn monitro contractau â thros 300 o gontractwyr annibynnol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd rheoli perthynas dda mewn amgylchedd cymhleth.

78 Fodd bynnag, dim ond tri o'r saith ymatebwr i'n harolwg o arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth gytunodd fod y Bwrdd Iechyd yn rhoi blaenoriaeth digon uchel i drawsnewid gofal sylfaenol. Codwyd pryderon bod mwy o bwyslais ar ddatblygu'r ganolfan arbenigol a gofal critigol, er gwaethaf penderfyniad clir y Bwrdd Iechyd i gryfhau gofal sylfaenol a chymunedol. Codwyd pryderon hefyd nad oedd cyflymdra'r newid yn ddigonol i ymdrin â phroblemau recriwtio gofal sylfaenol. Hefyd, roedd y Pwyllgor Meddygol Lleol yn feirniadol nad oedd gan ofal sylfaenol lais cryfach ar lefel y Bwrdd. Er ei bod yn glir bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drawsnewid gofal sylfaenol, gallai wneud rhagor i gynyddu proffil gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd.

## Mae diffyg data mewn rhai meysydd allweddol o ofal sylfaenol yn llesteirio'r broses o fonitro perfformiad gofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau

79 Ar lefel y Bwrdd, mae Adroddiad y Tîm Gweithredol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes gofal sylfaenol a chymunedol ym mhob cyfarfod. Ceir hefyd dogfennau'r Bwrdd ynghylch datblygu a chau practisau gofal sylfaenol ac ynghylch cynlluniau a chyflawniadau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. Ceir pwyslais cynyddol ar ofal sylfaenol trwy adroddiadau ar gynnydd o ran gweithredu'r cynlluniau newid strategol a datblygu'r Strategaeth Gofal yn Nes at Gartrefi. Fodd bynnag, prif bwyslais busnes y Bwrdd yw Dyfodol Clinigol a gofal eilaidd.

80 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn adolygu'r Adroddiadau Perfformiad Integredig bob mis ar gynnydd o ran Fframwaith Perfformiad a Chanlyniadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r mesurau sy'n ymwneud â gofal sylfaenol yn cynnwys rhaglen imiwneiddio plant a brechiadau'r ffliw, rhoi'r gorau i smygu, trefnu apwyntiadau meddygon teulu, gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, gofal deintyddol sylfaenol y GIG a dangosyddion rhagnodi. Fodd bynnag, prif bwyslais y fframwaith yw targedau gofal eilaidd. Yn ogystal â hyn, nid adroddir ar unrhyw ddangosyddion gofal sylfaenol ar y dangosfwrdd lefel uchel y mae'r Bwrdd yn ei weld. Ym mis Mai 2018, cydnabu'r Bwrdd y diffyg hwn a chytuno i ail-lunio'r Adroddiad Perfformiad Integredig i gynyddu pwysigrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol.

81 Diweddarwyd cylch gorchwyl Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Lles y Bwrdd Iechyd yn 2017 i gynnwys cyfeiriad penodol at ofal sylfaenol. Er bod agendâu'r pwyllgor yn canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd a'r datblygiadau ehangach gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, bu ymdriniaeth dda a rheolaidd â gofal sylfaenol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf trwy amryw o adroddiadau, gan gynnwys adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw adroddiadau ar berfformiad gwasanaethau gofal sylfaenol gan feddygon teulu ac aelodau staff gofal sylfaenol eraill nac ar gynnydd y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ar eu prosiectau. Mae'r diffyg data gweithgarwch hwn yn llesteirio'u gallu i gynllunio a datblygu gwasanaethau newydd

mewn gofal sylfaenol. Hefyd, ni ddarparwyd yr adroddiad blynyddol ar ofal sylfaenol i'r Bwrdd llawn, felly collwyd cyfle i rannu cynnydd ar drawsnewid gofal sylfaenol yn ehangach.

82 Mae'r Bwrdd Iechyd yn llunio adroddiadau manylach ar berfformiad gofal sylfaenol ar lefel is-adran. Bob mis mae'r Is-adran yn adolygu cerdyn sgorio cytbwys, sy'n cyfochri â'r cynllun tymor canolig integredig. Mae'r cerdyn sgorio yn cynnwys 60 o ddangosyddion ond mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn yn ymwneud â gwasanaethau cymunedol ac ychydig yn ymwneud â gofal sylfaenol.

83 Ar lefel Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth, mae pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn derbyn adroddiad misol ar berfformiad sy'n cynnwys dangosyddion allweddol sy'n ymwneud â'u nodau strategol o ran iechyd, mynediad, gofal wedi'i gynllunio, gofal brys a llywodraethu clinigol. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu amrywiaeth dda o ddangosyddion i gefnogi gweithrediad camau ar gyfer y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ond ni chânt eu hadrodd i unrhyw fforwm yn y Bwrdd Iechyd.

## Meddygon teulu sy'n arwain y rhan fwyaf o'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a mynegodd yr arweinwyr farn gadarnhaol ar gymorth y Bwrdd Iechyd

84 Mae Arddangosyn 11 yn nodi cefndiroedd proffesiynol arweinwyr y clystyrau a'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ledled Cymru. Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r rhan fwyaf o arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn feddygon teulu. Y tri gweithiwr proffesiynol arall sy'n arwain Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yw ymarferydd nyrsio, fferyllydd a meddyg ymgynghorol iechyd cyhoeddus.

### Arddangosyn 11: cefndir proffesiynol arweinwyr y clystyrau a'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth

Mae'r tabl hwn yn darparu nifer yr arweinwyr clystyrau a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth sy'n feddygon teulu a nifer yr arweinwyr clystyrau sy'n weithwyr proffesiynol eraill ym mhob Bwrdd Iechyd

| Bwrdd Iechyd | Nifer yr arweinwyr clystyrau: Meddygon Teulu | Nifer yr arweinwyr clystyrau: gweithwyr proffesiynol eraill | Cyfanswm y clystyrau |
|---|---:|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | 11 | 0 | 11 |
| Aneurin Bevan | 9 | 3 | 12 |
| Betsi Cadwaladr | 12 | 2 | 14 |
| Cwm Taf | 5 | 6 | 8 |
| Caerdydd a'r Fro | 9 | 0 | 9 |

| Bwrdd Iechyd | Nifer yr arweinwyr clystyrau: Meddygon Teulu | Nifer yr arweinwyr clystyrau: gweithwyr proffesiynol eraill | Cyfanswm y clystyrau |
|---|---|---|---|
| Hywel Dda | 6 | 1 | 7 |
| Powys | 2 | 1 | 3 |
| Cymru | 54 | 13 | 64 |

Sylwer: Er mai 64 clwstwr sydd i gyd, ceir 67 o arweinwyr clwstwr oherwydd bod meddyg teulu a gweithwyr proffesiynol eraill yn arweinwyr clwstwr yng Nghwm Taf.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd.

85 Mae Hwb Arloesi a Datblygu Gofal Sylfaenol a Chymunedol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu Rhaglen Arweinwyr Hyderus. Mae 40 o arweinwyr clystyrau a Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi dilyn y rhaglen ac maent yn parhau i ddysgu oddi wrth ei gilydd trwy gymuned arferion. Canfu ein harolwg fod pump o'r arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi mynychu'r rhaglen, a chytunodd pedwar ohonynt ei bod wedi'u helpu i wella fel arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.

86 Cytunodd yr holl arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a ymatebodd i'n harolwg gytunodd fod y Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth effeithiol iddynt gyflawni eu swyddogaeth. Fodd bynnag, dim ond tri o'r ymatebwyr gytunodd fod ganddynt ddigon o amser yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar ddatblygu'r clwstwr.

87 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cyflawniad lleol Model Trawsnewidiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth effeithiol, ymgysylltu proffesiynol, ymglymiad y gymuned a gweithlu sydd wedi ymrwymo i ffyrdd newydd o weithio. Bydd rhagor o fuddsoddiad mewn datblygu arweinyddiaeth yn y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r rhwydweithiau yn hollbwysig i gyflawniad eu cynlluniau i drawsnewid gofal sylfaenol.


# Perfformiad: Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau ac mae perfformiad yn cymharu'n dda â gweddill Cymru, ond mae nifer o heriau anodd yn parhau.

## Mae llawer o agweddau ar berfformiad gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn well na chyfartaledd Cymru er nad ydynt i gyd ar darged

88 Yn yr adran hon o'r adroddiad rydym yn crynhoi perfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â rhai o Fesurau Perfformiad a Chanlyniadau Llywodraeth Cymru, yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn Adroddiad Perfformiad Integredig misol y Bwrdd Iechyd.

89 Mae Arddangosyn 12 [27]yn dangos bod cyfradd imiwneiddio plant y Bwrdd Iechyd yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer dau frechlyn allweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed ar gyfer brechlynnau '5 mewn 1' i blant 1 mlwydd oed, gan ei wneud y gorau ond dau o blith y byrddau iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n cyrraedd y targed o ran y brechlyn MMR.

Arddangosyn 12: cyfraddau imiwneiddio plant ar gyfer y chwarter o fis Ionawr i fis Mawrth 2018





[27] www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=54124

Sylwer: mae'r brechlyn '5 mewn 1' yn amddiffyn rhag difftheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio a haint hib. Mae'r MMR yn amddiffyn rhag heintiau y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer plant sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2018 ac a gafodd eu pumed penblwydd yn ystod y chwarter o 1 Ionawr - 31 Mawrth 2018.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

90 Ar gyfer oedolion, argymhellir brechiadau ffliw i bobl 65 oed neu hŷn, yn ogystal â phobl â ffactorau risg eraill fel asthma. Y targed ar gyfer y ddau grŵp yw bod 75% o'r poblogaethau hynny yn cael y brechiad bob blwyddyn. Mae Arddangosyn 13 ac Arddangosyn 14 yn dangos bod cyfraddau'r brechiadau ffliw wedi gostwng yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid ydynt byth wedi cyrraedd y targed o 75% [28].


Arddangosyn 13: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad ffliw o 2014/15 i 2017/18: Nifer y cleifion 65 oed neu hŷn




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

28 www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/CommunitySurveillanceDocs.nsf/($All)/AC9851271F3475FD80258160004CF724/$File/Seasonal%20influenza%20in%20Wales%20201617_v1a.pdf


Arddangosyn 14: tueddiadau yn nifer y bobl sy'n cael y brechiad ffliw o 2014/15 i 2017/18: Nifer y cleifion sy'n iau na 65 oed sydd â risg




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

91 O ran cael gafael ar feddygon teulu, canran y practisau meddygon teulu a arhosodd ar agor trwy'r dydd yn 2017 oedd 84% (Arddangosyn 15). Hon yw'r ganran uchaf yng Nghymru gan wneud hwn y bwrdd iechyd gorau yng Nghymru, ac mae'r ganran ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru o 51%.

Arddangosyn 15: canran y practisau sydd ar agor am 100% neu fwy o'u horiau craidd wythnosol, fesul Bwrdd Iechyd, 2017





Sylwer: Cyfanswm yr oriau craidd wythnosol yw 52 awr a 30 munud.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

92 Mae Arddangosyn 16 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru ym mhob mesur sy'n ymwneud â darpariaeth apwyntiadau meddygon teulu ar wahanol amserau'r dydd.

Arddangosyn 16: amserau apwyntiadau estynedig mewn practisau meddygon teulu, 2017




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

93 Mae Arddangosyn 17 yn dangos ym mhob mesur sy’n ymwneud â darparu apwyntiadau â meddygon teulu ar wahanol amserau’r dydd, bod gan y Bwrdd Iechyd y gyfran uchaf o bractisau sy’n cynnig apwyntiadau rhwng 18:00 ac 18:30 ac yn un o ddwy ardal yn unig sy’n cynnig apwyntiadau â meddygon teulu ar ôl 18:30.

Arddangosyn 17: amserau apwyntiadau estynedig mewn practisau meddygon teulu, 2017

Canran y practisau sy’n cynnig apwyntiadau.


| Bwrdd Iechyd | Cyn 08:30 o leiaf 2 fore’r wythnos | Rhwng 17:00 a 17:30 o leiaf 2 fore’r wythnos | Rhwng 17:30 a 18:00 o leiaf 2 fore’r wythnos | Rhwng 18:00 a 18:30 o leiaf 2 fore’r wythnos | Ar ôl 18:30 o leiaf 1 bore’r wythnos |
|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 14% | 93% | 77% | 22% | 0% |
| Aneurin Bevan | 23% | 97% | 99% | 25% | 41% |
| Betsi Cadwaladr | 15% | 94% | 56% | 11% | 0% |
| Caerdydd a’r Fro | 23% | 95% | 74% | 12% | 0% |
| Cwm Taf | 12% | 100% | 100% | 66% | 0% |
| Hywel Dda | 31% | 98% | 80% | 37% | 10% |
| Powys | 12% | 100% | 76% | 18% | 0% |
| Cymru | 19% | 96% | 78% | 24% | 8% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

94 Pennodd Llywodraeth Cymru ddangosydd rhagnodi cenedlaethol yn 2017-18 i feddygon teulu leihau’r defnydd o gyffuriau i ladd poen fel ibuprofen, a elwir yn gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd, i leihau’r risg o gymhlethdodau. Mae Arddangosyn 18 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gostyngiad o 12.1% yn y lefelau rhagnodi yn y 12 mis blaenorol. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn debyg i gyfartaledd Cymru, sydd wedi gostwng ar gyfradd debyg. Dyma gyfeiriad teithio cadarnhaol tuag at darged heriol.

Arddangosyn 18: Iefelau rhagnodi cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd mewn gofal sylfaenol, chwarter un 2016-17 a 2017-18

Lefelau rhagnodi ar gyfartaledd dyddiol am bob 1,000 o STAR-PU (uned presgripsiynu grŵp therapiwtig penodol cysylltiedig ag oedran-rhyw).





Targed = <1,330

Ffynhonnell: Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru

95 Mae Arddangosyn 19 yn dangos canran y boblogaeth a ddefnyddiodd ofal deintyddol sylfaenol y GIG yn rheolaidd yn ystod y 24 mis blaenorol ar 30 Medi 2017. Y targed yw gwella'n flynyddol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni hyn, gan gynyddu'n raddol o 56.3% i 57.1%. Maent yn y trydydd safle o saith bwrdd iechyd.

Arddangosyn 19: canran y trigolion a gafodd driniaeth mewn practis deintyddol yn ystod y 24 mis blaenorol




Targed = gwelliant blynyddol

Ffynhonnell: Ffurflenni gweithgarwch deintyddol, Llywodraeth Cymru

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol wrth gyflawni ei gynlluniau gofal sylfaenol a chymunedol ond mae nifer o heriau anodd yn parhau

96 Nod adroddiad sicrwydd misol yr Is-adran yw rhoi sicrwydd i'r Is-adran a'r Tîm Gweithredol bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n effeithiol, wrth geisio gwella perfformiad ar yr un pryd. Mae'r adroddiad yn ymdrin â 60 o ddangosyddion ar draws gofal sylfaenol a chymunedol sydd wedi'u trefnu'n bedwar maes. Mae gan bob dangosydd darged a lefel oddefiant ar sail cyrraedd targedau cenedlaethol neu gyflawni targedau amcanion gwell a bennir gan yr is-adran. Dyrennir y sgôr fel a ganlyn:

- Gwyrdd, 3 phwynt – wedi cyrraedd y targed;
- Melyn, 2 bwynt – o fewn y goddefiant y cytunwyd arno;
- Coch, 1 pwynt – y tu allan i'r goddefiant.

97 Cyfunir y sgoriau i greu cerdyn sgorio cyffredinol. Mae Arddangosyn 20 yn dangos mai sgôr gyffredinol yr Is-adran ym mis Chwefror 2018 oedd 1.90. Mae hyn yn

graddio perfformiad yn goch a'r 'tu allan i'r goddefiant'. Mae tri o'r pedwar maes wedi'u graddio'n goch a dim ond cyllid sydd wedi'i raddio'n felyn. Mae'r sgoriau hyn yn dangos yr heriau sy'n parhau i'r Is-adran wrth gyflawni ei chynllun gwasanaethau sylfaenol a chymunedol.

Arddangosyn 20: cerdyn sgorio yn nodi'r sefyllfa lefel uchel o ran perfformiad yr Is-adran.

| Meysydd | Enwadur | Gwyrdd | Ambr | Coch | Sgôr gyfansymiol | sgôr derfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredol | 24 | 7 | 7 | 10 | 45 | 1.88 |
| Diogelwch Ansawdd a Chleifion | 20 | 5 | 8 | 7 | 38 | 1.90 |
| Gweithlu | 11 | 4 | 2 | 5 | 21 | 1.91 |
| Cyllid | 5 | 2 | 1 | 2 | 10 | 2.00 |
| Cyfanswm | 60 | 18 | 18 | 24 | 114 | 1.90 |

| | |
|---|---|
| Red | <2 |
| Amber | ≥2 - <2.4 |
| Green | ≥2.4 |

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Adroddiad Sicrwydd yr Is-adran Chwefror 2018.

98 Mae'r Is-adran yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd o ran cyflawni ei rhaglen waith. Mae Arddangosyn 21 yn crynhoi maint y cynnydd a wnaed yn 2016-17. Er bod rhai o'r camau sydd wedi'u nodi wedi'u cwblhau yn parhau mewn gwirionedd, mae'r adroddiad ar y cyfan yn dangos cynnydd graddol ym mhob proffesiwn contractwr wrth gydnabod y materion cynaliadwyedd sydd o flaen Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.

Arddangosyn 21: cynnydd o ran y rhaglen waith gofal sylfaenol, 2016-17

| | Meysydd blaenoriaeth a nodir yn y rhaglen waith | Cynnydd ar flaenoriaethau |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | Cynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mynediad gan gynnwys y 5A am Fynediad, cyflwyniad Fy Iechyd Ar-lein, dangosyddion y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, cynnydd o ran cyflawni gwasanaethau gwell, a llywodraethu a sicrwydd cytundebol. | 7 wedi'u cwblhau<br>8 yn parhau |
| Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol | Trefniadau llywodraethu, prosesau sicrwydd, gwasanaethau deintyddol cyffredinol/personol, gwasanaethau deintyddol orthodonteg, gofal deintyddol gartref, mân lawdriniaeth y geg, a chynllun gweithredu lleol ar iechyd y geg. | 6 wedi'u cwblhau<br>6 yn parhau |
| Fferyllfa Gymunedol | Trefniadau llywodraethu, prosesau sicrwydd, gwasanaethau hanfodol, mynediad, a gwasanaethau gwell. | 11 wedi'u cwblhau<br>4 yn parhau |

| | Meysydd blaenoriaeth a nodir yn y rhaglen waith | Cynnydd ar flaenoriaethau |
|---|---|---|
| Optometreg Gymunedol | Trefniadau llywodraethu, prosesau sicrwydd, gwasanaethau gwell a'r gwasanaeth glawcoma. | 3 wedi'u cwblhau<br>2 yn parhau |
| Ystadau gofal sylfaenol | Cynnydd ar gynlluniau datblygu mawr presennol, grantiau ar gyfer gwelliannau bach, a datblygu gwasanaeth storio a sganio. | 1 wedi'i gwblhau<br>5 yn parhau |

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol y Tîm Gofal Sylfaenol 2016-17

99 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd beth oedd y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol. Mae Arddangosyn 22 yn dangos bod yr Is-adran yn cydnabod problemau o ran cyflenwad llai o ddoctoriaid a galw cynyddol gan gleifion, yn ogystal ag angen i ddod o hyd i ffyrdd o ymdrin â chymhlethdod cynyddol a darparu mwy o gymorth i ofal sylfaenol.

Arddangosyn 22: barn yr Is-adran ar y prif rwystrau i drawsnewid gofal sylfaenol

| Rhwystrau | Yr hyn y mae angen ei wneud i ddileu'r rhwystrau |
|---|---|
| Recriwtio a chadw meddygon teulu | Ailfodelu'r gweithlu, ailgyfeirio galw, defnyddio technoleg. |
| Angen a galw cynyddol gan gleifion | Ailfodelu gwasanaethau, symud adnoddau i ofal sylfaenol, defnyddio technoleg. |
| Cymhlethdod cynyddol y system | Gwell cydweithredu i hwyluso arloesedd a newid. |
| Mwy o brosesau craffu | Datblygu dull cefnogol ar draws gofal sylfaenol i gefnogi newidiadau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Ffurflenni Hunanasesu Byrddau Iechyd.

100 Gofynnwyd am farn arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth ar lwyddiannau Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a'r prif heriau i ofal sylfaenol yn eu hardal. Mae Arddangosyn 23 yn dangos bod arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth o'r farn mai eu prif lwyddiannau yw cyflogi staff megis fferyllwyr, rhagnodwyr cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol. Maent hefyd yn nodi cynnydd o ran integreiddio'n fwy rhwng gwasanaethau.

Arddangosyn 23: llwyddiannau yn nhyb arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn ein harolwg

| Llwyddiannau | Nifer y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth |
|---|---|
| Fferyllwyr mewn practisau | 6 |
| Integreiddio cynllunio gofal sylfaenol ac eilaidd | 3 |
| Rhagnodi cymdeithasol | 3 |
| Ffisiotherapi mynediad uniongyrchol | 3 |
| Gweithwyr cymdeithasol | 2 |
| Cymorth i bractisau | 1 |
| Integreiddio â gwasanaethau cymunedol | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

101 Fel y dangosir yn Arddangosyn 24, mae'r pryderon a godir gan arweinwyr y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn debyg i'r rhai a godir gan yr Is-adran, sef problemau o ran cyflenwad doctoriaid ar adeg pan fo mwy o alw. Heriau eraill yw pwysau ariannol ac amddifadedd.

Arddangosyn 24: heriau yn nhyb arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn ein harolwg

| Heriau | Nifer y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth |
|---|---|
| Cynaliadwyedd practisau meddygon teulu | 5 |
| Recriwtio a chadw meddygon teulu | 4 |
| Pwysau ariannol | 3 |
| Materion gwasanaethau cymunedol | 3 |
| Amddifadedd a'r elfen wledig | 2 |
| Cynnydd yn y galw | 2 |
| Cyfradd newid yn araf ymysg practisau meddygon teulu | 1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o arweinwyr clystyrau, Ebrill 2018

# Atodiad 1

## Dulliau

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Hunanasesiad y Bwrdd Iechyd | Yr hunanasesiad oedd y brif ffynhonnell o ddata ar lefel gorfforaethol y gofynnwyd amdano gan y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2018. Roedd y dull hwn hefyd yn cynnwys cais am ddogfennau. |
| Arolwg o arweinwyr clystyrau | Anfonwyd arolwg ar-lein i'r holl arweinwyr clystyrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2018. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 63% (45/67). Cyfradd ymateb y Bwrdd Iechyd oedd 58% (7/12). |
| Cyfweliadau | Cyfwelwyd â nifer o aelodau staff, gan gynnwys y canlynol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol:<br>• Is-gadeirydd<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am ofal sylfaenol<br>• Cyfarwyddwr Meddygol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol<br>• Arweinydd Cyllid<br>• Arweinydd Gweithlu<br>• Arweinydd Cynllunio a Pherfformiad<br>• Rheolwyr Gweithredu<br>• Cynrychiolydd y Cyngor Iechyd Cymunedol |
| Adolygwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd | Adolygwyd cynllun tymor canolig y Bwrdd Iechyd i asesu faint o ystyriaeth a roddir i ofal sylfaenol. |
| Defnyddio data presennol | Defnyddiwyd ffynonellau data presennol pan oedd hynny'n bosibl, fel ystadegau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. |

# Atodiad 2

## Ymateb y Rheolwyr

**Dyddiad cyflawni:** 8 Chwefror 2018

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1a | Cyfrifo llinell sylfaen ar gyfer ei buddsoddiad a'i ddefnydd adnoddau presennol mewn gofal sylfaenol a chymunedol. | Sefydlu llinell sylfaen i'w defnyddio i fesur symudiad adnoddau tuag at ofal sylfaenol. | | Ydy | Gwnaed gwaith yn y Bwrdd Iechyd i ddatblygu dull o ddangos symudiad adnoddau/gweithgarwch yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru o fis Gorffennaf 2018. | Yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2018 i'w ystyried. | Rob Holcombe |
| A1b | Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, i asesu cynnydd ers y llinell sylfaen a monitro i ba raddau mae'n llwyddo symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. | Deall y cynnydd a wnaed o ran symud adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol. | | Ydy | Fel yr uchod, byddai hyn yn cael ei adrodd trwy'r fframwaith llywodraethu is-adrannol a sefydliadol, gan adrodd i'r Bwrdd bob tri mis trwy'r Pwyllgor Partneriaethau Cyhoeddus a Lles. | Yn parhau | Nick Wood |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A3a | Adolygu cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a'r pwyllgorau i sicrhau y rhoddir digon o sylw i ofal sylfaenol. | Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol | Ydy | Ydy | Fel yr uchod. | Wedi'i gwblhau | |
| A3b | Adolygu amlder yr adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau am ofal sylfaenol. | Gwella dealltwriaeth y Bwrdd o berfformiad gofal sylfaenol | Ydy | Ydy | Cyflwynir adroddiadau misol trwy'r cyfarfodydd sicrwydd. Mae'r Is-adran hefyd yn adrodd yn yr adolygiadau ar ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd blwyddyn. | Yn parhau | |
| A3c | Adolygu'r ffordd y mae'n adrodd i'r Bwrdd a phwyllgorau ar hyn o bryd am ei gynnydd a'i gynlluniau ar gyfer gofal sylfaenol, ac yn bwysig, sut y mae'n adrodd ar well canlyniadau i gleifion mewn gofal sylfaenol. | Codi ymwybyddiaeth y Bwrdd o effaith trawsnewid gofal sylfaenol ar gleifion. | Ydy | Ydy | Mae'r Is-adran yn cynnal cyfarfodydd sicrwydd misol â'i Chyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Is-adran hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Bwrdd ar ganol y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. | Yn parhau | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4a | Gweithio gyda'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, darparu tystiolaeth o ganlyniadau buddiol a llywio penderfyniadau ynghylch ehangu'r modelau hyn. | Cefnogi Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i werthuso mentrau a deall a fyddai'n fuddiol parhau ac ehangu neu roi'r gorau. | Ydy | Ydy | Cynhaliwyd adolygiad ar ffurf gweithdy gyda'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth i edrych ar y buddsoddiadau presennol a'r rhai arfaethedig, a gwneud a chefnogi penderfyniadau i dynnu arian yn ôl neu barhau i gyllido. | Wedi'i gwblhau | S Millar |
| A4b | Casglu gwerthusiadau o'r ffyrdd newydd o weithio mewn man canolog a rhannu'r hyn a ddysgwyd trwy gyhoeddi'r prif negeseuon ym mhob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth. | Darparu system i Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth ddysgu o fentrau ei gilydd. | Ydy | Ydy | Mae gan yr Is-adran ddangosfwrdd sy'n cofnodi gweithgareddau a pherfformiad, a chaiff ei rannu â'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | Yn parhau | Cyfarwyddwyr Clinigol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4d | Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn arbennig pwyntiau cyswllt cyntaf newydd mewn gofal sylfaenol a all arwain at lai o alw am apwyntiadau meddygon teulu. | Addysgu'r cyhoedd ynghylch y pwyntiau cyswllt cyntaf newydd sydd ar gael. | Ydy | Ydy | Rydym yn sefydlu swyddi cydgysylltwyr gofal o fewn gofal sylfaenol i gefnogi trafodaethau o fewn practisau. Mae hyfforddiant Llywio Gofal yn cael ei gyflwyno ledled Gwent i gefnogi staff derbynfa i gael trafodaeth wahanol gyda chleifion. | Yn parhau | Arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth/ Penaethiaid Gwasanaeth |
| A5a | Adolygu aeddfedrwydd cymharol Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth pan fo angen. | Cryfhau a thargedu cymorth datblygu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | Ydy | Ydy | Mae Arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth wedi'u cefnogi i gynnal y rhaglen arweinwyr hyfedr i gefnogi aeddfedrwydd ehangach y Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | Yn parhau | Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Gofal Sylfaenol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5c | Egluro a chyhoeddi trefniadau arwain a rheoli Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau i wneud penderfyniadau. | Cryfhau trefn lywodraethu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | | | Fel yr uchod. | | |
| A5d | Sicrhau bod arweinwyr yr holl Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn mynd ar y cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus. | Cryfhau arweinyddiaeth Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | | | Mae hyn yn parhau. Penodwyd yn ddiweddar i swyddi arweinwyr Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth a byddant yn cael gafael ar y datblygiad hwn. | Yn parhau | Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/ budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cyflawni | Swyddog â chyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A5e | Ystyried cyflwyno swydd arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth locwm i weithio ym mhob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth i ddarparu capasiti ychwanegol ac ôl-lenwi i arweinwyr y clystyrau. Dylai'r swydd fod yn werthfawr hefyd i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | Cynyddu cymorth i Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth. | | | Mae angen adolygu'r argymhelliad hwn yn unol â'r adolygiad o'r drefn lywodraethu. | | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru